

POLISI GWELLIANNAU AC ADDASIADAU TENANTIAID

CYNNWYS

1. **TAFLEN ADOLYGU**
2. **PWRPAS**
3. **CYFLWYNIAD**
4. **CRYNODEB O'R PRIF NEWIDIADAU O DAN YR ADOLYGIAD**
5. **SGÔP**
6. **FFRAMWAITH GYFREITHIOL**
7. **DIFFINIAD O WELLIANT**
8. **RHEOLAU CYFFREDINOL**
9. **CYFRIFOLDEBAU TENANTIAID**
10. **CYFRIFOLDEBAU CCG**
11. **GWRTHOD RHOI CANIATÂD**
12. **CYFRIFOLDEB CYNNAL A CHADW YN Y DYFODOL**
13. **GWELLIANNAU TENANTIAID FEL RHAN I WAITH SATC**
14. **ADDASIADAU & GWELLIANNAU HEB EU HAWDURDODI**
15. **TYNNU GWELLIANT**
16. **GWEITHRED GYFREITHIOL**
17. **IAWN DAL I DENANTIAID AM WELLIANNAU**
18. **APELIADAU**
19. **FFACTORAU RISG**
20. **CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**
21. **DIFFINIADAU AC ACRONYMAU**
22. **CYFEIRNODAU**
23. **ADOLYGU**

ATODIADAU

- A** Cais i wneud gwelliannau i'ch cartref
- B** Proses Gwelliannau ac Addasiadau Tenantiaid

24. TAFLEN ADOLYGU

Rhifyn	Disgrifiad Byr o'r Rheswm dros Newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
0	Cynnwys sylwadau FGCS	Rheolwr Tir a Chyfleusterau	04-07-12
1	Addasiadau FGCS	Rheolwr Tir a Chyfleusterau	20-02-15
2	EMT Sylwadau	Rheolwr Tir a Chyfleusterau	15-04-15
3	Pwyllgor Gweithrediad	Rheolwr Tir a Chyfleusterau	06-05-15

2.0 PWRPAS

2.1 Pwrpas y polisi hwn yw cael canllawiau rheoli clir mewn lle ar gyfer ymdrin â cheisiadau gan denantiaid i wneud gwelliannau ac i sicrhau bod pob cais am welliant neu addasiad yn cael ei drin yn deg a chyson.

3.0 CYFLWYNIAD

3.1 Mae CCG yn cydnabod bod gan denantiaid sicr hawl cyfreithiol i wneud addasiadau a gwelliannau i'w cartrefi cyn belled â'u bod nhw'n cael caniatâd ysgrifenedig cyn bod y gwaith yn cael ei wneud a bod y gwaith yn cael ei wneud i safon ddisgwyliedig.

3.2 Bydd pob cais am welliant neu addasiad yn cael ei gyflwyno ar ffurflen gais safonol CCG ac yn cael ei yrru ymlaen yn y lle cyntaf i'w archwilio i'r Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau. Efallai y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i wrthod y cam cyntaf os bydd y tenant mewn ôl-ddyled rhent a/neu mewn anghydfod gyda'u cymdogion. Unwaith y bydd cais yn pasio y prawf cyntaf hwn bydd yna yn cael ei yrru ymlaen i Asedau a Buddsoddi - Uned Tir a Chyfleusterau i'w archwilio'n dechnegol a'i gymeradwyo'n derfynol.

4.0 CRYNODEB O'R PRIF NEWIDIADAU O DAN YR ADOLYGIAD

4.1 Polisi o ran addasi atig hanesyddol wedi ei gadarnhau.

4.2 Polisi o ran llefydd caled i barcio wedi ei wneud yn glir

4.3 Polisi ar leoliad carafanau a chychod wedi ei ychwanegu.

4.4 Polisi o ran gosod offer Tanwydd soled ac aml danwydd wedi ei wneud yn glir.

4.5 Polisi ar lwybrau cerdded gyda tho pwysu wedi ei ychwanegu.

4.6 Nifer o amrywiadau bychain amrywiol i'r polisi.

4.7 Ffurflen gais a map proses wedi ei newid.

5.0 SGÔP

5.1 Caiff tenantiaid sicr CCG eu cynnwys yn y polisi hwn a'r weithdrefn gysylltiol, sy'n amlinellu:

- Sut y bydd CCG yn ystyried ceisiadau gan denantiaid i wneud addasiadau neu welliannau i'w cartrefi.
- Cyfrifoldebau tenantiaid dros gael yr holl ganiatâd perthnasol.
- Pa gamau y bydd CCG yn eu cymryd pan fydd gwaith yn cael ei wneud heb gael caniatâd.
- Gwelliannau ar gyfer addasiadau sydd wedi eu gwneud sydd ddim yn addas ar gyfer yr eiddo.
- Sut y bydd CCG yn ystyried iawn dal am hawliadau gwelliannau ar ddiwedd tenantiaeth ar gyfer gwelliannau a gafodd eu cymeradwyo.

5.2 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â gwelliannau tenantiaid, ond bydd gofynion y polisi yn ymdrin hefyd ag eiddo Hawl i Brynu a gadwyd (Preserved Right to Buy) sy'n gofyn bod rhaid cael caniatâd CCG o dan gyfamodau cyfyngol. Wrth ystyried cynigion perchnogion o dan y cyfamodau, bydd ystyriaeth yn cael ei roi i unrhyw bryderon posib gan gartrefi cyfagos a'r effaith y bydd gwelliannau gan berchnogion yn ei gael yn gyffredinol ar weddill stoc tai CCG.

5.3 Polisiâu Perthnasol

- Polisi Addasiadau
- Rheolau Buddsoddi
- Polisi ar Denantiaid yn Gosod Tân Nwy
- Polisi Gosod
- Polisi Trwsio Ad-daladwy
- Cytundeb Tenantiaeth
- Polisi Safonau
- Polisi Rheoli Asbestos
- Polisi Ôl-ddyledion Rhent
- Polisi Aseinio a Chyfnwid Tenantiaeth

6.0 FFRAMWAITH GYFREITHIOL

6.1 Prif feysydd cyfreithiol sy'n berthnasol i'r polisi hwn yw:

- Deddf Tai 1985 sy'n rhoi'r hawl i denantiaid wneud addasiadau a gwelliannau sydd wedi derbyn caniatâd.
- Amodau Tenantiaeth CCG sy'n amlinellu cyfrifoldebau tenantiaid.

- Y Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 sy'n amlinellu'r hawl i gael iawndal am welliannau penodol ar ddiwedd tenantiaeth cyn belled a bod y gwelliant wedi ei gychwyn ar neu ar ôl 1 Ebrill 1994.

7.0 DIFFINIAD O WELLIANT

7.1 Caiff "gwelliannau" eu diffinio fel "addasiadau mewn eiddo neu ychwanegiadau i eiddo" gan gynnwys ychwanegiadau neu addasiadau i osodiadau a ffitiadau CCG, addasiadau i wasanaethau i'r eiddo ac unrhyw waith addurno allanol.

7.2 Mathau o waith

Enghreifftiau o waith a fyddai'n cael eu hasesu o dan y polisi hwn fyddai:

- Gosod drysau a ffenestri.
- Gwaith strwythurol e.e. addasu a thynnu pared mewnol.
- Adeiladu estyniadau neu ychwanegiadau i adeilad.
- Adeiladu neu dynnu strwythur mewn gardd gan gynnwys sied, tŷ gwydr, wal neu ffens.
- Gosod system wresogi
- Ychwanegu, addasu neu dynnu unrhyw wasanaethau nwy, trydanol neu ddŵr.
- Ychwanegu neu newid unedau mewn cegin.
- Gosod ystafell ymolchi newydd neu ychwanegu cyfarpar.
- Tynnu coeden yn yr ardd.
- Gosod man parcio car neu bafin.
- Addurno tu allan i'r eiddo.
- Lleoli carafanau a chychod

Nid yw'r rhestr uchod yn un gyflawn a gellir ystyried gwelliannau eraill.

8. RHEOLAU CYFFREDINOL

8.1 **Lloriau** - Bydd caniatâd i osod llawr laminet i loriau ystafelloedd llawr cyntaf yn cael eu gwrthod lle bydd angen mynediad i bethau o dan y llawr (heblaw ar sail feddygol , e.e. dioddefwyr asma). Bydd caniatâd i osod llawr ceramig yn cael ei wrthod heblaw ei fod yn cael ei osod mewn cegin neu ystafell ymolchi sydd ddim uwch ben ystafell fyw.

8.2 **Ystafelloedd gwydr** - Fel rheol gyffredinol bydd adeiladu ystafelloedd gwydr neu adeiladau wedi eu gwneud yn bennaf o wydr ddim yn cael ei ganiatáu. Y rheswm am

hyn yw bod strwythurau fel hyn yn rhwystro cynnal a chadw'r adeiladau gwreiddiol, yn creu problemau wrth geisio cael mynediad i ddraeniau ac yn creu problemau cynnal a chadw i CCG pan ddaw'r denantiaeth i ben. Efallai y bydd caniatâd yn cael ei roi i godi ystafelloedd gwydr sydd ddim yn rhai parhaol cyn belled ac nad ydynt yn amharu ar hygyrchedd ac ar yr amod bod y tenant yn gyfrifol am ei dynnu ar ddiwedd y denantiaeth. Ni fydd ystafelloedd gwydr yn welliannau cymwys o dan iawndal am gynlluniau gwella.

- 8.3 Caniateir **siediau a thai gwydr** ond caiff ei gyfyngu i un sied fesul tŷ a ddim yn mesur mwy na 3.0m x 2.4m x 2.5m o uchel (10' x 8' x 8'3") mewn dimensiwn a ni fydd ynghlwm i unrhyw ran o'r eiddo a ni fydd yn ymyrryd gyda golau, awyriad, mynediad neu olchi cymdogion. Efallai y bydd siediau mwy yn cael eu hystyried dim ond yw maint yr ardd yn caniatáu hyn a bod caniatâd cynllunio priodol wedi ei dderbyn.
- 8.4 Caniateir gosod **lloeren ac erial** ar waliau neu i bolion sydd ddim fwy na 2.4m o uchel, ond ni ddylai ymyrryd gyda golau, awyriad, mynediad neu olchi cymdogion. Ni ddylai lloerenni ac erialau fod ynghlwm i unrhyw ran o strwythur y to neu simdde. Ni fydd lloerenni nag erialau unigol yn cael eu caniatáu ar gyfer blociau o fflatiau sy'n cael eu gwasanaethu gan systemau lloeren a theledu cyffredin.
- 8.5 Ni ddylai ffens gardd fod yn fwy na 2.0m (6'0") o uchel yng nghefn neu ochr yr eiddo a 1.0m (3'0") o uchel yn y ffrynt. Caiff ffrynt yn gyffredinol ei ddiffinio fel unrhyw ffens sydd tu hwnt i linell flaen yr adeilad. Efallai y bydd ffensys sy'n ffinio ar brif ffordd yn ddarostyngedig i gyfyngiadau priffyrdd a chynllunio felly bydd gofyn i denantiaid ddangos tystiolaeth o unrhyw ganiatâd Awdurdod Lleol neu Barciau Cenedlaethol.
- 8.6 Bydd **Waliau gerddi ffrynt** ond yn cael eu caniatáu ar stadau sydd ddim yn rhai agored a bydd adeiladu'r waliau yn cyd fynd â manylion dylunio safonol CCG. Bydd swyddogion yn defnyddio eu disgrisiwn ar stadau a oedd yn rhai agored yn wreiddiol ond wedi lleihau yn hyn o beth dros y blynyddoedd, hefyd mewn llyfudd lle mae diogelwch yn broblem fawr.
- 8.7 Ni fydd **Insiwleiddio Wal Geudod** yn cael ei ganiatáu fel rheol oherwydd bod yn hanes bod eiddo CCG yn dueddol o fynd yn llaith yn dilyn gosod y cynnyrch yma.
- 8.8 **Mesuryddion** - Fel arfer nid oes gofyn i denantiaid gael caniatâd CCG i osod neu wneud newidiadau i fesuryddion dŵr, mesuryddion nwy na mesuryddion trydan heblaw bod newid o'r fath yn golygu ail leoli'r mesuryddion.

- 8.9 **Addasu Atig (cyn 2010)** - Bydd tenantiaid sydd wedi addasu atig heb ganiatad ysgrifenedig y Cyngor cyn Ebrill 2010 yn cael parhau i ddefnyddio'r atig fel lle byw ¹ ar yr amod y gallant ddangos bod defnydd o'r ystafell yn cyd fynd â rheoliadau adeiladu a safonau diogelwch tân presennol. Bydd tenantiaid na all ddangos eu bod yn cydymffurfio gyda rheoliadau presennol wybod na allant ddefnyddio'r atig fel lle byw yn y dyfodol ac i dynnu unrhyw risiau sy'n arwain at yr ystafelloedd hyn.
- 8.10 Pan fydd atig wedi ei addasu cyn 2010 gan denant blaenorol efallai bydd ystyriaeth yn cael ei roi i uned cynnal a chadw CCG i gynorthwyo tenantiaid presennol i dynnu'r grisiau a gwneud unrhyw waith adfer.
- 8.11 Mae eiddo sydd ag atig wedi eu hadeiladu yn bwrpasol (e.e. tai 3 llawr yn Ffordd Castell, Maesgeirchen) wedi eu hadeiladu fel rhan o'r strwythur gwreiddiol wedi eu heithrio, yn ddarostyngedig i fod yna ystyriaethau diogelwch tân digonol yn eu lle h.y. larymau a ffordd wedi ei amddiffyn o ddianc os fydd yna dân.
- 8.12 **Addasu Atig (Ar ôl 2010)** - Ni fyddant yn cael eu caniatáu fel rheoli mewn eiddo CCG ond efallai y bydd yn cael ei ystyried os bydd cynlluniau proffesiynol ar gael sy'n dangos cydymffurfiaeth gyda phob gofyniad deddfwriaeth bresennol e.e. strwythurol, mynediad, diogelwch tân a mesurau effeithlonrwydd ynni a bod cynlluniau o'r fath wedi eu cymeradwyo gan Adrannau Cynllunio Lleol a Rheoliadau Adeiladu.
- 8.13 **Addasu Atig (Tai Gwag)** – Pan fydd eiddo yn dod yn wag a bod yna atig wedi ei addasu ynddo, os na fydd yn cwrdd â rheoliadau adeiladu a safonau diogelwch tân presennol bydd yn cael ei dynnu a bydd yr eiddo yn cael ei drosi yn ôl i'w ddyluniad gwreiddiol.
- 8.14 **Lle caled i barcio (Newydd)** – Bydd yn cael ei ganiatau dim ond pan fydd yna ddigon o le o fewn cwrtill yr eiddo sy'n galluogi lle i gar teulu o faint cyffredin. Rhaid i le caled i barcio gael ei adeiladu yn unol â manyleb safonol CCG fel caiff ei fanylu isod:
1. Gall lle caled i barcio gael ei adeiladu o goncrid, tarmac athraidd, cerrig llorio neu raeau.
 2. Graean man i'w adeiladu mewn haenau cyfnerthig i ddyfnder o 150mm.
 3. Arwyneb i fod yn athraidd neu fod yna ddraen i suddfan dŵr.
 4. Ni ddylai dŵr arwyneb ddraenio i'r brif ffordd.

¹ Caiff ystafell ar gyfer dibenion byw ei ddiffinio o dan Rheoliadau Adeiladu fel "Unrhyw ystafell a gaiff ei ddefnyddio neu y bwriedir i'w defnyddio ar gyfer cysgu, coginio, byw neu fwyta".

5. Pan fydd lle caled yn goleddfu lawr i'r brif ffordd bydd sianel ddraenio addas yn cael ei adeiladu rhwng y lle caled a'r man cerdded.
6. Bydd ochrau'r lle caled wedi ei wneud o gwrbyn goncrid, carreg neu bren.
7. Bydd unrhyw agoriad i'r ffen a/neu waliau terfyn yn cael ei drwsio.
8. Pan fydd agoriad yn cael ei wneud drwy waliau brics / cerrig mae'n rhaid darparu pileri cerrig addas.
9. Pan fydd giatiau yn cael eu gosod rhaid iddynt agor am ei mewn.
10. Bydd tenantiaid yn gyfrifol am gael cytundeb Adran 184 (Deddf Priffyrdd 1980) a rhaid i'r gwaith o adeiladu croesfan cerdded gan ei wneud gan gontractwr gwaith stryd cymwysedig.
11. Ni fydd y lle caled i barcio yn cael ei ddefnyddio i barcio cerbydau trwm neu gerbydau masnachol.

- 8.15 **Lle caled i barcio (Presennol)** - Pan fydd tenantiaid wedi adeiladu llefydd caled i barcio heb ganiatâd y landlord efallai y bydd caniatâd wedi hynny yn cael ei roi os yw'r hyn sydd wedi ei adeiladu yn cwrdd â safon resymol ac yn cyd fynd a manyleb CCG. Pan fydd llefydd caled ddim i'r safon ddisgwyliedig a ddim yn cwrdd â gofynion cyffredinol CCG, bydd tenantiaid yn cael y cyfle i ail wneud y lle caled i'r safon ofynnol o fewn 60 diwrnod ar eu costau eu hunain. Os bydd y tenant yn gwrthod gwneud y gwaith i'r safon ofynnol o fewn yr amserlen ofynnol, ei fod yn flêr neu yn risg I&D yna efallai y bydd CCG yn gweithredu i dynnu'r lle caled i barcio cerbydau a bydd rhaid i denant ad-dalu am hyn.
- 8.16 **Carafanau a Chychod** – Bydd tenantiaid yn cael parcio carafanau symudol bach a chychod bach ar drellar (hyd at 6m) o hyd² o fewn cwrtel eu cartref cyn belled â'u bod yn cael eu cadw at le caled pwrpasol wedi ei leoli 2m i ffwrdd o'r tŷ o leiaf (am resymau diogelwch tân) ac nad ydynt yn amharu ar fwynhad cymdogion o'u cartref. Ni fyddwn yn caniatáu gosod carafanau statig, cychod mawr nag unrhyw adeilad parod.
- 8.17 Bydd **Slabiau Pafin a Deciau Patio Coed** yn cael ei ganiatau ar yr amod, os bydd angen mynediad i gynnal / trwsio draeniau a/neu wasanaethau o dan y ddaear, bydd y tenant yn gyfrifol am ail osod y slabiau / dec ar eu costau eu hunain.
- 8.18 Bydd ceisiadau am osod **ceginau ac ystafelloedd ymolchi** yn cael eu cymeradwyo cyn belled â'u bod yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a bod ansawdd y deunyddiau'r un fath neu'n well na'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan CCG o dan ei raglenni buddsoddi presennol.

² Mae dimensiwn y gwch yn berthnasol i hyd y gwch ac nid y trelar.

- 8.19 Bydd Addasiadau Strwythurol yn cael ei gymeradwyo os yw'r gwaith yn gwella cynllun cyffredinol yr eiddo ac nad yw'r addasiadau yn gwneud yr eiddo yn anodd i'w ail osod ar ddiwedd y denantiaeth.
- 8.20 **Offer Tanwydd Solet ac Aml Danwydd (Newydd)** - Fel darparwr tai cymdeithasol mae'n rhaid i CCG gydymffurfio gyda rheoliadau iechyd a diogelwch caeth ac mae'n ofynnol ein bod ni'n gwasanaethu a phrofi'r systemau gwresogi ym mhob un o gartrefi ein tenantiaid bob blwyddyn. Mae gan bob un o eiddo CCG wres sy'n gwrdd â safonau SATC felly bydd unrhyw geisiadau gan denantiaid i osod tanwydd solet neu losgwyr aml danwydd yn cael ei gwrthod mewn egwyddor. Pan fydd gosodiad yn cael ei wrthod bydd CCG yn cynnig cymorth i unrhyw denant sy'n dioddef o dlodi tanwydd.
- 8.21 **Offer Tanwydd Solet ac Aml Danwydd (Presennol)** - Pan fydd tenantiaid wedi gosod eu tannau tanwydd solet neu aml danwydd yn barod, heblaw bod ganddynt ganiatâd ysgrifenedig gan CCG ar ôl 2010 neu Cyngor Gwynedd cyn hynny byddant yn cael gwybod bod rhaid iddynt stopio defnyddio'r tan a'i dynnu. Bydd unrhyw danau tanwydd solet neu aml danwydd sydd wedi eu gosod gyda chaniatâd ymlaen llaw yn cael eu hychwanegu i gytundeb gwasanaethu a chynnal a chadw tanwydd solet CCG.
- 8.22 **Llwybrau Cerdded gyda tho pwyso (Presennol)** – Mae toeau pwyso sydd wedi eu hadeiladu rhwng tai ac adeiladau allanol wedi creu problemau cynnal a chadw i CCG. Byddwn yn gofyn i denantiaid sy'n cael gwaith gwella i'w heiddo dynnu unrhyw strwythurau fel hyn sydd heb awdurdod cyn bod gwaith yn dechrau. Os na fydd tenantiaid yn gwneud hyn yna bydd CCG yn cadw'r hawl i dynnu'r strwythur eu hunain er mwyn hwyluso'r gwaith yma.
- 8.23 **Llwybrau Cerdded gyda tho pwyso (Ceisiadau Newydd)** – Byddant ond yn cael eu cymeradwyo pan na fydd dyluniad yn amharu ar ddeunydd strwythurol yr adeilad neu adeilad allanol ac nad yw'n amharu gydag unrhyw ddiweddariad neu waith trwsio sy'n cael ei wneud gan CCG. Os caiff ei gymeradwyo rhaid i'r dyluniad a'r gwaith adeiladu gyrraedd safonau rheoliadau adeiladu. Bydd CCG yn cadw'r hawl i ofyn am addasiad neu dynnu'r to os bydd yn amharu ar welliannau yn y dyfodol.
- 8.24 **Yswiriant** - Bydd gan denantiaid sy'n gwneud gwaith gwella neu addasiadau i'w cartrefi neu eu contractwyr yswiriant digonol (hyd at £2 filiwn) er mwyn digolledu CCG yn erbyn unrhyw hawliadau, ta waeth sut mae wedi digwydd. Bydd tystiolaeth o'r yswiriant ar gyfer y gwaith yn cael ei ddarparu cyn y gellir rhoi caniatâd i wneud y gwaith.

8.25 **Penderfyniadau wrth Ddisgresiwn** - Canllawiau cyffredinol yw'r polisiâu uchod sydd i'w defnyddio wrth weinyddu ceisiadau am welliannau gan denantiaid. Byddwn yn edrych ar bob cais ar ei haeddiant ei hun ac mae'r polisi yn caniatáu peth disgresiwn i swyddogion i wneud penderfyniadau tu allan i'r polisi mewn amgylchiadau arbennig ac yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Cyfarwyddwyr Gwasanaeth.

9.0 CYFRIFOLDEBAU TENANTIAID

9.1 Mae tenantiaid yn gyfrifol am ofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen gais safonol CCG ac am gael caniatâd ysgrifenedig cyn bod unrhyw waith yn dechrau.

9.2 Mae tenantiaid yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw ganiatad arall, cymeradwyaeth neu drwyddedau yn dod i law cyn bod unrhyw waith yn dechrau. Gan gynnwys:

- Rheoliadau Adeiladu
- Cynllunio (gan gynnwys ardaloedd cadwraeth)
- Caniatâd adeiladau rhestredig
- Cwmnïau nwy, trydan neu ddŵr
- Caniatâd i docio neu dorri coeden
- Rheoliadau Adeiladau (Dylunio a Rheoli) 2015

9.3 Mae'r rheoliadau CDM newydd 2015 yn gymwys i eiddo domestig. Bydd unrhyw waith sy'n para mwy na 30 diwrnod gwaith a bod yna fwy na 20 o weithwyr wedi bod yn gweithio ar y prosiect ar unrhyw bwynt neu fod y gwaith yn golygu bod mwy na 500 diwrnod pobl wedi ei ddefnyddio yn adroddadwy o ran rheoliadau CDM. Bydd dyletswyddau cleient domestig yn trosglwyddo i'r contractwr sy'n gyfrifol am y cam adeiladu ond bydd gan CCG gyfrifoldeb i sicrhau bod y contractwr sy'n gweithio ar yr eiddo yn gymwys. Os bydd gwaith yn dod yn un adroddadwy bydd tenantiaid ond yn cael cyflogi contractwr sydd wedi eu harchwilio a chymeradwyo gan CCG o dan ei gynllun contractwr cymwys.

9.4 Mae tenantiaid yn gyfrifol am gydymffurfio gyda phob amod rhesymol sydd ynghlwm â'r caniatâd ysgrifenedig; bydd methu â bodloni amod rhesymol yn cael ei drin fel torri amodau'r denantiaeth.

9.5 Mae tenantiaid yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd neu daliadau sy'n codi o ofyn am ganiatad priodol.

- 9.6 Rhaid i addasiadau sydd wedi eu cytuno i'w gwneud ar yr eiddo gael eu cwblhau mewn amser rhesymol gan contractwr cymwys a bod safon y gwaith yn cwrdd â safon briodol yn unol ag amodau eraill sydd wedi eu hysgrifennu yn y caniatâd.
- 9.7 Rhaid i holl waith trydanol a wneir gael ei wneud gan drydanwr cymwysedig a rhaid iddo feddu ar dystysgrif cymwys sy'n cyd-fynd â Rheoliadau Trydanol (BS7671). Bydd CCG yn rhoi tystysgrif cydymffurfio i'r tenant. Ni fydd gwaith gosodiadau trydanol yn cael ei ganiatau mewn adeiladau allanol heblaw bod yr adeiladau allanol a'r gosodiadau trydanol yn cwrdd â safonau rheoliadau adeiladu presennol.
- 9.8 Rhaid i holl waith sy'n ymwneud â gosod, tynnu neu ail leoli cyfarpar nwy gael ei wneud gan beiriannwr cofrestredig Gas Safe yn unol â rhifyn diweddaraf o'r Rheoliad Diogelwch Nwy (Gosod a Defnyddio) fel y caiff ei amodi yn y "Polisi Tenantiaid yn Gosod Offer Nwy". Bydd CCG yn rhoi tystysgrif cydymffurfio i'r tenant.
- 9.9 Rhaid i holl waith ar ddeunydd sy'n cynnwys asbestos gael ei wneud gan berson cymwys addas yn unol â rhifyn diweddaraf o'r Rheoliadau Rheoli Asbestos (CAR). Cyn bydd unrhyw waith yn cychwyn bydd CCG yn rhoi enw adeiladwr cyfrifol a fydd wedi ei benodi i wneud y gwaith ac yn sicrhau bod ei weithwyr wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth asbestos yn ddiweddar.
- 9.10 Lle bo'n briodol, efallai bydd tenantiaid yn cael gwybodaeth am bresenoldeb asbestos gan CCG, bydd copi o'r adroddiad asbestos yn cael ei roi pan fydd rhywun yn gofyn. Rhaid i'r tenant roi tystysgrif i CCG bod deunydd sy'n cynnwys asbestos wedi ei dynnu gan contractwr tynnu asbestos arbenigol.
- 9.11 Rhaid i'r holl waith plymio gael ei wneud gan blymiwr cymwys ac addas.
- 9.12 Ar gyfer rhai gwaith, efallai y bydd rhaid i denantiaid gyflwyno gwaith papur perthnasol gan gynnwys:
- Amcanbrisiau yn nodi'r rheswm dros ddewis amcanbris penodol (ar gyfer hawliadau iawndal yn y dyfodol).
 - Manylion y contractwr sydd wedi ei ddewis i wneud y gwaith. (Ac eithrio unrhyw waith DIY bychan, rhaid i unrhyw Gontractwyr sy'n gwneud gwaith i denantiaid ar eu cartref fod yn gymwys, er enghraifft wedi cofrestru gyda chorff masnachol priodol ac wedi eu hyswiro i wneud y gwaith gofynnol).
 - Cadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdodau cynllunio ar a yw caniatâd cynllunio yn ofynnol neu beidio â'i fod wedi ei dderbyn lle bo'r angen.

- Tystiolaeth ysgrifenedig wedi ei dderbyn lle mae gofyn gan yr awdurdod lleol ar gyfer manylebau ar gyfer gosod (e.e. gwres canolog)
- Lluniau a nodiadau ar gyfer gwaith strwythurol, wedi eu paratoi gan bensaer cymwys, syrfëwr neu beiriannwr.
- Manylion llawn gan gynnwys cynlluniau, manylebau, lluniau catalog ar gyfer deunyddiau e.e. unedau cegin, drysau newydd ayb.

9.13 Os yw tenant yn dymuno adfer neu atgyweirio gosodiad presennol pan ddaw eu tenantiaeth i ben, rhaid i'r tenant gytuno i gadw'r gosodiad gwreiddiol mewn amgylchedd diogel lle na fydd yn dirywio.

9.14 Mae tenantiaid yn gyfrifol am ddarganfod llety arall, ar eu costau eu hunain, os oes raid iddynt symud allan o'u heiddo yn ystod unrhyw waith.

9.15 Tenantiaid sy'n gyfrifol am unrhyw waith trwsio mewn perthynas â'r addasiad neu welliant y maent yn eu gwneud ond dim am drwsio neu welliannau sydd wedi eu darparu gan denantiaid blaenorol.

9.16 Os bydd CCG yn gwneud unrhyw waith sy'n ymwneud ag addasiadau neu welliannau neu sy'n deillio o'r gwaith yma, y tenant fydd yn gyfrifol am dalu am y gwaith.

9.17 Bydd peidio â chael caniatâd CCG neu fethiant i gydymffurfio ag amodau rhoi cymeradwyaeth bydd yn torri goblygiadau tenant o dan y gytundeb tenantiaeth.

10. CYFRIFOLDEBAU CCG

10.1 Amcan CCG yw bod yn deg a chyson wrth ystyried ceisiadau sydd wedi eu gwneud gan denantiaid i wneud gwelliannau ac addasiadau i'w cartrefi. Wrth wneud penderfyniadau bydd CCG yn ystyried unrhyw bryderon potensial ar gyfer cartrefi cyfagos a hefyd amddiffyn ei ddiddordeb ei hun yn yr eiddo.

10.2 Bydd gofyn i denantiaid gwblhau ffurflen gais gwelliannau tenantiaid a bydd pob penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig.

10.3 Bydd CCG yn ystyried pob cais yn ffurfiol ar ôl:

- Ar ôl cael pob cymeradwyaeth statudol/caniatâd wedi ei gael e.e. cynllunio, caniatâd adeiladu, adeilad rhestredig ayb.

- Talu unrhyw ôl-ddyledion rhent a dyledion eraill sy'n ddyledus neu sy'n cael ei gasglu gan CCG.
- 10.4 Ar gais y tenant bydd swyddogion CCG yn drafod syniadau yn anffurfiol gyda nhw cyn iddynt wneud unrhyw geisiadau statudol a bydd yn darparu cyngor fel bo'n briodol.
- 10.5 Ni fydd CCG yn dal caniatâd yn ôl yn afresymol pan fydd tenantiaid yn gwneud ceisiadau i wneud gwelliannau. Fodd bynnag, rhaid i welliannau fod yn briodol i'r math o eiddo.
- 10.6 Ni fydd CCG yn rhoi unrhyw amodau afresymol ar unrhyw ganiatâd ysgrifenedig. Mae amodau rhesymol yn cynnwys:
- Rhoi amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith sydd wedi ei ofyn.
 - Rhoi mynediad i'r eiddo o fewn nifer penodol o ddyddiau o gwblhau'r gwaith.
 - Ansawdd y deunyddiau sy'n rhaid eu defnyddio.
 - Rhaid i waith gael ei wneud gan berson/contractwr cymwys ac addas.
 - Cydymffurfio gyda rheoliadau a safonau perthnasol ar gyfer gwneud gwaith.
- 10.7 Pan fydd gwaith yn cael ei wrthod, ni fydd CCG yn gymwys i ad-dalu tenantiaid ar unrhyw daliadau / ffioedd sydd wedi eu creu.
- 10.8 Ni fydd CCG yn atebol am unrhyw golled neu ddifrod i unrhyw addasiadau sydd wedi ei wneud gan denant gyda chaniatâd ysgrifenedig neu heb ganiatâd.
- 10.9 Ni fydd CCG yn cynorthwyo gyda thaliadau tuag at gost o wneud gwelliannau tenantiaid, heblaw am pan fyddant yn cael eu gwneud yr un pryd a gwelliannau SATC, eu bod yn fforddiadwy o ran cynllun busnes SATC a bod hyn yn gwneud yr eiddo yn fwy deniadol ar gyfer ail osod ar ddiwedd tenantiaeth (cyfeiriwch at bara 10.1).
- 10.10 Ar ddiwedd y denantiaeth, bydd CCG yn ystyried pob hawliad dilys ar gyfer iawn dal sy'n cael ei wneud gan denantiaid sydd wedi gwneud gwelliannau i'w cartrefi gyda chaniatâd ysgrifenedig. Caiff rhestr o welliannau cymwys a'r dull o gyfrifo faint o iawn dal sy'n daladwy ei ddisgrifio'n fanylach o dan adran 17.
- 10.11 Ni fydd rhent yn cael ei newid o ganlyniad i welliant heblaw bod yna ystafell wely wedi ei ychwanegu a fyddai'n effeithio ar rent safonol ar gyfer y math yna o eiddo. Fodd bynnag, gallai addasiadau penodol effeithio'n wael ar werth yr eiddo, e.e. drwy leihau'r nifer o ystafelloedd ac addasiadau fel hyn, ni fyddant yn cael eu cymeradwyo.

- 10.12 CCG Mae CCG yn anelu i ymdrin â cheisiadau am iawn dal am welliannau o fewn 28 diwrnod o'r rhybudd yn cael ei dderbyn. Gellir ond gwneud ceisiadau o'r fath pan ddaw tenantiaethau i ben.
- 10.13 Byddwn yn codi tâl ar denantiaid am unrhyw waith trwsio y mae'n rhaid i CCG wneud os yw gwaith trwsio yn ymwneud ag addasiadau neu welliannau tenantiaid neu yn deillio o'r gwaith.
- 10.14 Bydd CCG yn ymdrechu i wneud penderfyniadau o fewn amserlen resymol.
- 10.15 Efallai y bydd CCG yn rhoi caniatâd wedi hyn yn unol ag Adran 98(3) o'r Ddeddf Tai 1985

11.0 CANIATÂD A GAIFF EI WRTHOD

11.1 Caiff caniatâd ei wrthod os yw'r gwaith a fwriedir:

- yn gwneud yr eiddo yn beryglus
- yn cynyddu costau cynnal a chadw CCG
- Lleihau'r lle byw neu'r nifer o lofftydd
- Mynd yn groes i reoliadau cynllunio, adeiladu neu gadwraeth
- ddim yn cydymffurfio gyda rheoliadau, iechyd a diogelwch perthnasol ayb
- yn effeithio unrhyw waith sydd wedi ei gynllunio gan CCG o dan y rhaglen SATC
- Lleihau gwerth yr eiddo
- Ymddangos fel na fydd yn cyd fynd â chymeriad y datblygiad neu'r hyn sydd o'i amgylch
- Ei fod yn debygol o greu problem i gymdogion
- Gall o bosib wneud yr eiddo yn anodd i'w osod yn y dyfodol
- Cyfyngu mynediad i bwyntiau gwasanaeth fel tapiau cau

12.0 CYFRIFOLDEB CYNNAL A CHADW YN Y DYFODOL

12.1 Bydd CCG yn gyfrifol am gynnal eitemau sydd wedi eu gosod gan denantiaid e.e. silffoedd, cypyrddau gosodedig a chypyrddau gegin ychwanegol gan ystyrir mai gosodiadau tenantiaid yw'r rhain.

- 12.2 Ar ddiwedd eu tenantiaeth, ni fydd gan denantiaid hawl i dynnu unrhyw osodiadau sy'n rhan hanfodol o strwythur neu osodiadau e.e. weirio.
- 12.3 Ar ddiwedd eu tenantiaethau efallai y bydd tenantiaid yn cael cyfarwyddyd i adfer yr eiddo i'r cyflwr gwreiddiol, yn enwedig os nad yw'r addasiadau sydd wedi eu gwneud yn addas ar gyfer y defnydd a fwriedir ar gyfer yr eiddo. Er enghraifft, os yw'r eiddo wedi ei ddynodi ar gyfer teulu yn hytrach nag eiddo wedi ei addasu yna efallai y bydd angen ail osod unrhyw offer yn yr ystafell ymolchi e.e. Os yw cawod lefel mynediad wedi ei osod byddai disgwyl bod y tenant yn ail osod y bath i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y denantiaeth. Fodd bynnag, os caiff yr eiddo ei ddynodi fel "eiddo wedi ei addasu" a'i fod yn cael ei ail osod ar y sail yma, yna ni fydd angen ei adfer.
- 12.4 Os bydd tenantiaid yn gwrthod adfer yr eiddo i'r sefyllfa wreiddiol ar ddiwedd y denantiaeth neu na allant wneud y gwaith eu hunain, gall CCG wneud y gwaith ar eu rhain a chodi tâl yn unol â'r Polisi Trwsio Ad-daladwy.

13.0 GWELLIANNAU TENANTIAID FEL RHAN O WAITH SATC

- 13.1 Bydd angen i denantiaid sy'n gofyn am welliannau ychwanegol neu addasiadau'r un pryd a gwaith buddsoddi SATC drafod maint y gwaith gyda'r Rheolwr sy'n gyfrifol am gyflawni'r rhaglen. Bydd gwelliannau o'r fath ond yn cael eu cefnogi os yw'r gwaith yn fforddiadwy yng nghyd-destun y cynllun busnes SATC. Efallai y bydd gwaith sydd ddim yn fforddiadwy yn cael ei wneud ar ran tenantiaid ar sail ad-daladwy. Os na ellir dod i gytundeb efallai y bydd tenantiaid yn gofyn bod eu ceisiadau yn cael eu hadolygu gan yr Uned Tir a Chyfleusterau o dan y polisi gwelliannau ac addasiadau tenantiaid.

14.0 ADDASIADAU a GWELLIANNAU HEB EU HAWDURDODI

- 14.1 Mae'n amod ar y denantiaeth bod rhaid cael caniatâd ysgrifenedig cyn bod tenant yn cychwyn ar unrhyw welliannau. Os bydd tenant yn gwneud gwelliant heb gael caniatâd ysgrifenedig, efallai y bydd CCG yn rhoi caniatâd wedi hynny yn ddarostyngedig i denant yn gwneud cais ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod o gael eu cyfarwyddo i wneud hynny.
- 14.2 Bydd gorfodaeth tenantiaeth yn cael ei gymryd os:
- Bod y gwelliant wedi ei wneud yn barod a bod y tenant yn gwrthod gwneud cais.
 - Bod cais y tenant yn cael ei wrthod ac nid yw'n adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol.

- Bod ansawdd y gwaith neu ddeunyddiau yn is na'r safon ofynnol e.e. lle nad yw gwaith wedi ei gwblhau neu nad yw i'r safon ddisgwyliedig neu lle mae deunyddiau amhriodol wedi eu defnyddio.

14.3 Yn y sefyllfaoedd hyn efallai y bydd CCG yn gwneud y gwaith ac yn codi tâl ar y tenant neu fel arall efallai y bydd gweithred gyfreithiol yn cael ei chymryd.

14.4 Lle mae addasiad heb ei awdurdodi yn atal CCG rhag gwneud ei rhaglen gwelliannau SATC yn effeithiol, bydd gofyn i'r tenant adfer neu gwblhau'r gwaith i safon foddhaol o fewn 30 diwrnod o gael gwybod am hyn gan y tîm SATC. Os na fydd y tenant yn ymateb o fewn yr amser sydd wedi ei roddi gall arwain at orfodaeth tenantiaeth a / neu weithred gyfreithiol.

14.5 Bydd unrhyw welliannau tenantiaid sydd wedi ei wneud cyn y 10fed o Ebrill 2010 yn cael ei gweld fel gwaith a ganiateir a bydd yn cael ei eithrio o weithred gorfodaeth.

15.0 TYNNU GWELLIANT

15.1 Mae CCG yn cadw'r hawl i adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol os yw'r addasiad yn atal y tŷ gael ei ddiweddarau i safonau SATC, ei fod ddim yn ddiogel neu ei fod yn achosi difrod i strwythur yr eiddo neu eiddo wrth ymyl. Bydd CCG yn gofyn am gyngor cyfreithiol cyn gweithredu. Bydd unrhyw gostau i adfer yr eiddo yn cael ei godi ar denantiaid.

15.2 Os yw'n briodol, bydd CCG yn cynghori tenantiaid os bydd rhaid i ni dynnu a gwaredu unrhyw offer neu ddeunyddiau o'r eiddo byddwn yn codi tâl am unrhyw gostau sydd wedi eu creu.

15.3 Bydd unrhyw waith pellach sydd wedi ei wneud gan CCG i gywiro problemau yn cael ei ad-dalu.

16.0 GWEITHRED GYFREITHIOL

16.1 Os bydd tenantiaid yn methu â chydymffurfio â'r polisi yma bydd CCG yn gweithredu yn briodol gan gynnwys:

Gwneud cais i'r Llysoedd o ran: -

- Bod unrhyw welliant yn cael ei dynnu sy'n torri amodau'r denantiaeth.
- lawndal am unrhyw gostau sydd wedi eu creu
- Cymryd meddiant o'r eiddo

17.0 IAWN DAL I DENANTIAID AM WELLIANNAU

17.1 Pan ddaw'r denantiaeth i ben, mae gan denantiaid CCG hawl i gael iawndal ar welliannau y maent wedi eu gwneud. Dyma grynodeb o'r cynllun:

- Mae'r cynllun yn digolledu tenantiaid sydd wedi gwneud gwelliannau ar y 1 Ebrill 1994 neu ar ôl hynny ond eu bod yn gadael cyn cael budd llawn o'u buddsoddiad.
- **Rhaid** i CCG roi caniatâd am y gwelliant, mae hyn yn cynnwys caniatâd ôl-weithredol.
- Caiff iawndal ond ei dalu ar gyfer gwelliannau cymwys (gweler eitem 15.2) pan ddaw'r denantiaeth i ben.
- Rhaid i'r tenant fod yn denant sicr pan gaiff yr hawliad ei wneud.
- **Nid** yw tenantiaid sydd wedi prynu eu cartref drwy hawl i brynu yn gymwys gan fod gwelliannau'r tenant yn cael ei ystyried wrth wneud y prisiant.
- **Nid** yw tenantiaid sydd wedi colli eu tenantiaeth o dan orchymyn llys yn gymwys.
- Gall hawliadau gael eu gwneud hyd at 28 diwrnod cyn daw'r denantiaeth i ben neu 14 diwrnod ar ôl diwrnod olaf y denantiaeth. Rhaid i bob hawliad gael ei wneud yn ysgrifenedig.
- Mae angen anfonebau ar gyfer deunyddiau a llafur. **Nid** yw costau llafur y tenant ei hun yn gymwys. Nid oes yna iawndal am ffioedd cynllunio neu broffesiynol.
- Mae yna swm is o £50.00 a swm uchaf o £3,000 am iawndal sy'n daladwy.
- Gall unrhyw daliad sy'n ddyledus gael ei osod yn erbyn unrhyw ôl-ddyledion gan gynnwys dyledion cyn denantiaid a chyfrifon eilradd.
- **Nid** yw tenantiaid a all dynnu gwelliant ar ddiwedd eu tenantiaeth ac adfer y gwreiddiol neu adfer y man i'w gyflwr gwreiddiol yn gymwys i dderbyn iawndal.

17.2 Rhestr o welliannau cymwys

17.2.1 Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r gwelliannau y gall tenantiaid eu gwneud i'w cartrefi ar eu costau eu hunain a lle gellir hawlio iawn dal amdano ar ddiwedd eu tenantiaeth. Mae'r rhestr hefyd yn nodi eu bywyd amcanol cyfartalog. Dim ond os nad yw'r gwelliannau'n bodoli'n barod y gellir ei wneud ac nid ydynt yn gymwys i gael iawndal os cant eu gwneud fel rhan o waith y rhaglen SATC.

17.2.2 Daw'r rhestr ganlynol o ganllaw adolygedig Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol: Bargen Well i Denantiaid (2007).

Gwelliant Cymwys	Bywyd Tybiannol
Bath, cawod, basn golchi dwylo, toiled	12 mlynedd
Sinc cegin a wynebau gweithio ar gyfer paratoi bwyd	10 mlynedd
Cypyrddau storio mewn ystafell ymolchi neu cegin	10 mlynedd
Gwres canolog, boeleri dŵr poeth a mathau eraill o wresogi	12 mlynedd
Falfiau rheiddiadur thermostatig	7 mlynedd
Insiwleiddio peipiau, tanc dŵr neu silindr	10 mlynedd
Insiwleiddiad atig neu wal geudod	20 mlynedd
Atal drafft o ddrysau a ffenestri allanol	5 mlynedd
Gwydr dwbl neu unrhyw ffenestr allanol arall neu wydr eilradd	20 mlynedd
Ail weirio neu ddarparu pŵer a golau neu osodiadau trydanol arall (gan gynnwys canfyddion mwg)	15 mlynedd
Mesurau diogelwch (ac eithrio larymau byrgler)	10 mlynedd

17.3 CYFRIFO IAWNDAL

Caiff yr iawndal ei gyfrifo yn unol â'r fformiwla ganlynol sy'n rhoi ystyriaeth i draul a gwisgo a dibrsiad.

C x (1-Y/N)

C = cost gwreiddiol y gwelliant.

Y = nifer o flynyddoedd cyflawn y mae'r gwelliant wedi bod yn ei le (gyda rhan o flwyddyn yn cael ei ystyried fel blwyddyn gyflawn) gan gychwyn ar y dyddiad lle cafodd y gwelliant ei gwblhau a gorffen ar y dyddiad y caiff iawndal ei hawlio.

N = bywyd amcanol y gwelliant.

18.0 APELIADAU

- 18.1 Os yw tenant yn anfodlon gydag amod sydd wedi ei osod neu benderfyniad sydd wedi ei wneud gan y Tîm Tir a Chyfleusterau gallant ofyn bod eu hachos yn cael ei ailystyried o dan bolisi cwynion a phryderon CCG.
- 18.2 Gall tenantiaid hefyd apelio i'r Llys Sirol os ydynt yn teimlo bod tu hawl i wneud gwelliant neu addasiad wedi ei wrthod yn afresymol gan CCG neu os yw'r iawndal a gynhigir gan CCG yn rhy isel.
- 18.3 I bennu os yw caniatâd wedi ei ddal yn ol yn afresymol bydd rhaid i'r llys ystyried faint y byddai'r gwelliant yn debygol o:

- Gwneud yr eiddo neu unrhyw adeilad arall yn llai diogel i ddeiliaid
- Achos CCG i wario na fyddai yn ei wario fel arfer pe na fyddai'r gwelliant yn cael ei wneud, neu
- Lleihau'r pris y byddai'r eiddo yn ei gyrraedd pe byddai yn cael ei werthu ar y farchnad agored neu'r rhent y gallai CCG ei godi wrth osod yr eiddo.

19.0 FFACTORAU RISG

19.1 Gall welliannau gan denantiaid sydd heb eu cymeradwyo: -

- Creu costau cynnal a chadw ychwanegol i CCG
- Creu costau ail osod ychwaengol i CCG pan ddaw eiddo yn wag.
- Effeithio ar allu CCG i gwblhau buddsoddiadau SATC i eiddo ar amser.
- Effeithio ar werth asedau CCG.

20.0 CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

20.1 Mae CCG yn cydnabod anghenion poblogaeth amrywiol a bydd bob amser yn ymddwyn o fewn sgôp ei bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei hun. Mae Asesiad o effaith ar gydraddoldeb wedi ei gynnal ac mae'n dangos nad oes yna ddim posib gwahaniaethu.

21.0 DIFFINIADAU AC ACRONYMAU

- CCG - Cartrefi Cymunedol Gwynedd
- SATC - Safon Ansawdd Tai Cymru
- PRTB - Hawl i Brynu wedi ei warchod
- FGCS - Fforwm Gwasanaethau Cwsmer o Safon
- CDM - Rheoliadau Adeiladau (Dylunio a Rheoli) 2015

22.0 CYFEIRNODAU

- Deddf Tai 1985
- Deddf Diwygio Prydles a Datbylgiad Trefol 1993
- Rheoliadau Hawl Tenantiaid i lawndal am Welliannau
- Rheoliadau Rheoli Asbestos 2012
- Polisi Rheoli Asbestos - CCG
- Rheoliadau Adeiladau (Dylunio a Rheoli) 2015

23.0 ADOLYGU

- 23.1 Bydd y weithdrefn hon yn cael ei hadolygu bod 3 mlynedd, neu mewn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth, canllaw rheolaethol, ymarfer da neu newid i unrhyw bolisiau perthnasol CCG.